



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Fframwaith Monitro ac Adrodd

Ionawr 2020



Cyflwyniad	2
Pam Monitro ac Adrodd?	2
Y dull monitro ac adrodd	4
Fframwaith Monitro ac Adrodd	6
Trosolwg o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru	6
Cynllun Morol - monitro penderfyniadau	7
Monitro'r polisi	10
Monitro Cynaliadwyedd	15
Y Camau Nesaf	18
Atodiad 1	19

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r dull strategol y bydd Llywodraeth Cymru, fel awdurdod cynllunio morol Cymru, yn ei ddefnyddio i ddatblygu dangosyddion ar gyfer monitro'r gwaith o weithredu system dan arweiniad cynllun ar gyfer dyfroedd Cymru. Mae'r manylion a nodir yma yn rhai dros dro a byddant yn cael eu datblygu mewn partneriaeth â phenderfynwyr allweddol a rhanddeiliaid ehangach.

Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC)¹ yw'r cynllun morol cyntaf ar gyfer Cymru ac mae'n nodi dechrau proses gynllunio i lunio moroedd Cymru er mwyn helpu i gyflawni'r amcanion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Diben y Cynllun yw arwain datblygiad cynaliadwy ardal y cynllun morol. Mae'n berthnasol i bob penderfyniad sy'n cael ei wneud gan awdurdodau cyhoeddus a allai effeithio ar ardal cynllun morol Cymru (gweler ffigur 1).

Pam Monitro ac Adrodd?

Mae monitro yn darparu adborth hanfodol oddi mewn i'r broses gylchol o lunio polisi cynaliadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae'n cysylltu amcanion cynllun â'r sylfaen dystiolaeth a'r broses ddilynol o weithredu polisiâu'r cynllun. Dylai canfyddiadau'r gwaith monitro fod yn sylfaen i unrhyw adolygiad o'r cynllun a gwaith datblygu polisi yn y dyfodol.¹

Yn benodol, mae Adran 61 o **Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (MCAA)** yn nodi gofyniad cyfreithiol i fonitro ac adrodd (o leiaf bob tair blynedd) ar y broses o weithredu cynlluniau morol. Y diben yw deall:

- cyfraniad y cynllun morol at gyflawni'r Amcanion Morol Uwch (HLMOs) yn Natganiad Polisi Morol y DU (MPS);

- y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau amcanion y cynllun;
- effeithiau'r polisiâu yn y cynllun morol; ac
- effeithiolrwydd polisiâu'r cynllun o ran sicrhau amcanion y cynllun.

Hefyd, mae MCAA yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio morol ystyried yr angen i ddiwygio cynllun morol bob chwe blynedd o'r dyddiad cyflwyno. Bydd gwaith monitro ac adolygu yn galluogi Llywodraeth Cymru i bennu effaith ac effeithiolrwydd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, sicrhau bod y polisiâu yn addas i'r diben, a nodi a oes angen diwygiadau i helpu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sydd wedi codi.

Yn ogystal, mae **Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004**³ yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu CMCC yn benodol, gan gynnwys effeithiau amgylcheddol niweidiol nas rhagwelwyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â phroses Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA)/Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) ar y cyd ar gyfer CMCC, gan lunio adroddiad SA⁴ sy'n integreiddio gofynion Rheoliadau 2004, gan gynnwys argymhellion ar gyfer dangosyddion monitro.


¹ www.llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-dogfen

² www.llyw.cymru/llawlyfr-ar-gynlluniau-datblygu-lleol-argraffiad-2-2015

³ www.legislation.gov.uk/wsi/2004/1656/contents/made

⁴ llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-arfarniad-o-gynaliadwyedd

Ffigur 1. Ardal Cynllun Morol Cymru




Y dull monitro ac adrodd

Mae'r ddogfen hon yn gam cyntaf yn y broses o ddatblygu dull monitro ac adrodd ar CMCC. Mae Ffigur 2 yn dangos y camau sy'n arwain at gyhoeddi'r adroddiad monitro cyntaf yn 2022. Oherwydd gwelliant parhaus, bydd adborth

pwysig o'r adroddiad monitro cyntaf yn darparu ar gyfer monitro yn y dyfodol o ran addasrwydd dangosyddion, ffynonellau gwybodaeth a methodoleg asesu, yn ogystal ag adolygu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ei hun.

Ffigur 2. Proses Monitro ac Adrodd ar CMCC



Bydd y dull monitro ac adrodd yn integreiddio gofynion ar draws sbardunau deddfwriaethol, gan gynnwys:

- **Monitro'r Cynllun Morol/penderfyniadau:** nodi a monitro dangosyddion a fydd yn asesu effeithiolrwydd CMCC fel modd o gyflawni ei amcanion
- **Monitro Amcanion/Polisi:** asesu canlyniadau ymarferol (**effeithiau**) y mae polisiau o dan nifer o amcanion yn cyfrannu atynt.

- **Monitro cynaliadwyedd:** sy'n gysylltiedig ag Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) a phroses yr Asesiad Amgylcheddol Strategol (SEA) integredig, gan asesu a yw polisiau'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gynaliadwyedd.

Bydd y fframwaith monitro yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol (wedi'u haddasu o'r Llawlyfr Datblygu Lleol⁵):

- **Canolbwyntio ar beth sydd angen ei fonitro**
e.e. lle mae effeithiau arwyddocaol yn debygol ac eglurder ynglŷn â pha fath o wybodaeth sydd ei hangen.
Fodd bynnag, mae angen ystyried cymhlethdod dylanwadau lluosog hefyd: anaml y mae canlyniadau'n deillio o bolisiâu cynlluniau datblygu yn unig.
- **Defnyddio gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli**
er mwyn osgoi dyblygu diangen â dulliau monitro eraill.
Serch hynny, gall dibynnu ar ffynonellau data presennol olygu nad oes modd monitro rhai dangosyddion bellach, neu efallai y bydd angen eu diwygio i gyfateb i'r dulliau diweddaraf o gasglu data.
- Sefydlu (lle bynnag y bo modd) targedau, dangosyddion a phwyntiau sbardun i asesu'n brydlon a yw polisiâu'n cyflawni eu hamcanion arfaethedig a sicrhau nad yw'r pwyslais ar gasglu data yn unig, ond ei fod yn cynnwys dehongli a datblygu canlyniadau blaenorol i lywio gwaith adolygu polisi, neu ymateb wedi'i dargedu os oes angen.
Mae dewis amserlenni addas yn bwysig gan ei bod yn bosibl na fydd modd asesu sawl agwedd ar waith cynllunio nes bod patrymau'n dod i'r amlwg yn yr ail neu'r trydydd cyfnod adolygu.

Wrth ddatblygu'r fframwaith monitro ac adrodd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud y canlynol:

- ystyried y dulliau o adolygu cynlluniau morol y DU sydd wedi'u cyhoeddi hyd yma^{6,7}, yn ogystal â chyngor mwy diweddar a gomisiynwyd gan y Sefydliad Rheoli Morol⁸;
- ymgysylltu â phenderfynwyr allweddol a rhanddeiliaid eraill trwy Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol⁹, ac ymgynghoriad cyhoeddus ar fersiwn drafft o Gynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd¹⁰;
- cyngor ar nodi dangosyddion er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu'r fframwaith monitro ac adrodd; a
- defnyddio canllawiau presennol ar gyfer y system gynllunio ddaearol yng Nghymru.

⁵ llyw.cymru/llawlyfr-ar-gynlluniau-datblygu-lleol-argraffiad-2-2015

⁶ www.assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/604900/east-marine-plans-three-year-progress-report.pdf

⁷ www.gov.scot/Resource/0053/00533191.pdf

⁸ Y Sefydliad Rheolaeth Morol 1151 Adolygiad o Ddangosyddion Monitro'r Cynllun Morol a'u Cadwyni Rhesymeg Cysylltiedig, 15 Mehefin 2018. Adroddiad a baratowyd gan ICF, Live Economics ac ABPmer.

⁹ llyw.cymru/grwp-cyfeirio-rhanddeiliaid-cynllunio-morol

¹⁰ llyw.cymru/cynllun-morol-cenedlaethol-cymru-arfarniad-o-gynaliadwyedd




Trosolwg o'r CMCC


Mae'r CMCC wedi'i baratoi yn unol â'r **Datganiad Polisi Morol (2011)** a'i fabwysiadu o dan **Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (MCAA)** a bydd yn cyfrannu at gyflawni **Amcanion Morol Uwch y DU (HLMOs)** yn ardal cynllun morol Cymru. Mae'r HLMOs yn adlewyrchu amcanion cyffredin Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig ar gyfer moroedd y DU, ac maent yn cynnwys amcanion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn ogystal ag amcanion llywodraethu a gwyddoniaeth.

Mae'r CMCC wedi'i ddatblygu yn unol â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 201)** a **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016** (gweler ffigurau 3 a 4) a bydd yn helpu i sicrhau Statws Amgylcheddol Da (GES) hefyd, yn unol â diffiniad 11 disgrifydd statws GES yn **Strategaeth Forol y DU**.

Ffigur 3. Cyd-destun polisi



Ffigur 4: Rhyngweithio rhwng UK MPS (MCAA) a Pholisi Cyfoeth Naturiol Cymru (Deddf yr Amgylchedd) a chynlluniau cysylltiedig ar draws y rhyngwyneb rhwng y tir a'r môr.



Mae'r CMCC yn cynnwys yr elfennau canlynol sy'n gysylltiedig â'r HLMOs ac yn helpu i'w cyflawni nhw a'r sbardunau eraill a restrir uchod. (Gweler Atodiad 1 am restr lawn o amcanion a pholisïau:

- **gweledigaeth:** y datganiad cyffredinol yn ymwneud â nodweddion ardal cynllun morol Cymru;
- **13 o amcanion y cynllun:** datganiad o'r canlyniadau dymunol neu'r newidiadau mewn ymddygiad gweladwy y mae'r CMCC yn ceisio eu cyflawni er mwyn gwireddu'r weledigaeth;
- **amcanion y sector:** datganiadau penodol i sectorau ynghylch canlyniadau dymunol;
- **25 o bolisïau trawsbynciol cyffredinol:** polisïau cynllun trawsbynciol yw'r rhain sy'n berthnasol i bob sector a gweithgaredd (er bod y graddau y mae angen eu hystyried yn dibynnu ar raddfa ac effaith debygol y cynnig) ac sy'n helpu i gyflawni amcanion y cynllun;
- **17 o bolisïau'r sector:** yn gweithredu ar y cyd â'r polisïau trawsbynciol cyffredinol fel polisïau'r sector sy'n berthnasol i benderfyniadau yn ymwneud â gweithgaredd penodol. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau ategol (i gefnogi'r broses o ddatblygu sector penodol) a pholisïau diogelu (i ddiogelu gweithgareddau sector penodol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol rhag effeithiau negyddol gweithgareddau eraill).

Cynllun Morol - monitro penderfyniadau

Diben cyffredinol Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw arwain datblygiad cynaliadwy ardal y cynllun morol. Mae'r CMCC yn nodi sut y bydd cynigion yn cael eu hystyried gan awdurdodau cyhoeddus perthnasol wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar ardal cynllun morol Cymru. **Canlyniad** dymunol cynllun morol yw sicrhau bod rheolaeth forol yn 'seiliedig ar gynllun' yn hytrach nag ar yr hyn y gellir ei ddisgrifio yn y cyd-destun hwn fel dull gweithredu ymatebol a darniog.

Caiff effeithiolrwydd CMCC wrth sicrhau bod modd gweithredu system a arweinir gan gynllun yn nyfroedd Cymru ei asesu trwy ddefnyddio dangosyddion a gwybodaeth y gellir eu crynhoi fel **y cynllun morol – monitro penderfyniadau**.

Mae hyn yn cynnwys dwy brif elfen:

a. A yw'r CMCC yn cael ei ddefnyddio?

Er mwyn sicrhau bod polisïau'r CMCC yn cael effaith, mae angen gwneud pob penderfyniad perthnasol yn ôl adran 58 o'r MCAA, sy'n datgan:

1. A public authority must take any authorisation or enforcement decision in accordance with the appropriate marine policy documents, unless relevant considerations indicate otherwise.

2. If a public authority takes an authorisation or enforcement decision otherwise than in accordance with the appropriate marine policy documents, the public authority must state its reasons.
3. A public authority must have regard to the appropriate marine policy documents in taking any decision (a) which relates to the exercise of any function capable of affecting the whole or any part of the UK marine area, but (b) which is not an authorisation or enforcement decision.

Felly, bydd angen asesiad/dangosydd (ion) i roi gwybod inni a yw adran 58 yn cael ei defnyddio ar gyfer pob penderfyniad perthnasol. Bydd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth gan gynnwys:

- mapio'r penderfyniadau sy'n dod o dan adran 58, gan ddechrau gydag adran 58 (1)
- faint o benderfyniadau perthnasol sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddio polisïau CMCC
- a oes unrhyw bolisïau penodol nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith ac os felly, pam?

b) A yw'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer penderfyniadau'r cynllun morol ar waith ac a yw'n effeithiol?

Mae manteision rheoli morol sy'n seiliedig ar gynllun yn cael eu mynegi trwy HLMOs y DU, yn benodol o dan themâu 'Hyrwyddo llywodraethu da' a 'Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol'. Mae nifer o **ganlyniadau'r cynllun** yn gysylltiedig â'r themâu hyn ac â'r amcanion CMCC (12 a 13) a'r polisïau (Gen_02, Gov_02 a Sci_01) cysylltiedig.

Gellir rhannu canlyniadau'r CMCC yn **ganlyniadau** a **gweithgareddau** canolradd a fydd yn helpu i'w cyflawni. Bydd y gweithgareddau a'r canlyniadau canolradd hyn yn hollbwysig i sicrhau bod y CMCC yn gallu cyflwyno system sy'n seiliedig ar gynllun yn nyfroedd Cymru mewn ffordd effeithiol, felly mae'n bwysig creu a monitro cyfres o **ddangosyddion ar gyfer penderfyniadau'r cynllun morol** (gweler tabl 1 isod).

Bydd llawer o'r gweithgareddau hyn yn gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru fel yr awdurdod cynllunio. Fodd bynnag, gall awdurdodau cyhoeddus ddewis ymgymryd â gwaith rhagweithiol i gefnogi eu gweithgarwch rheoli morol eu hunain a'r penderfyniadau cysylltiedig, er enghraifft mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) eisoes wedi comisiynu nifer o brosiectau mewnol i helpu i gyflwyno polisïau SCI_01, GEN_02 a ENV_01 trwy eu swyddogaethau penderfynu a chynghori.

Bydd Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol (RPAs) yn ffynhonnell adborth bwysig ar effeithiolrwydd gweithgareddau a chanlyniadau ategol, a bydd y Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol¹¹ yn fforwm allweddol ar gyfer casglu'r wybodaeth hon.

¹¹ llyw.cymru/grwp-penderfynwyr-cynllunio-morol

Tabl 1. Dangosyddion enghreifftiol o benderfyniadau'r cynllun morol

Amcanion y CMCC	Canlyniadau'r Cynllun	Gweithgareddau	Canlyniadau Canolradd	Dangosyddion enghreifftiol o benderfyniadau'r cynllun morol
12. Cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cymesur, cyson ac integredig trwy roi polisïau blaengar ar waith fel rhan o ddull rheoli moroedd Cymru sy'n seiliedig ar gynllun, yn rhagofalus, yn seiliedig ar risg ac y gellir ei addasu.	Gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd wrth reoli gweithgareddau morol. Integreiddio llwyddiannus rhwng cynlluniau morol a daearol a chynlluniau trawsffiniol	Hyrwyddo'r CMCC a chodi ymwybyddiaeth ohono (e.e. trwy'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol a'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol) Cydweithio ar faterion trawsffiniol Llunio a chynnal canllawiau atodol ar gyfer y cynllun	- Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o CMCC - Cynyddu gwybodaeth am anghenion defnyddwyr y cynllun - Bydd awdurdodau cyhoeddus perthnasol yn cymryd agwedd gymesur at gyflwyno polisïau perthnasol y cynllun morol wrth wneud penderfyniadau - Canllawiau Gweithredu a Hysbysiadau Cynllunio Morol	Monitro'r defnydd o bolisi wrth benderfynu ar drwyddedau morol yn ystod cyfnod sampl. (Ffynhonnell: Tîm Trwyddedu Morol CNC) Yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyfeirio at CMCC wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio (neu'r rheswm dros gymeradwyo/gwrthod) (Ffynhonnell: Awdurdodau Cynllunio Lleol) Dogfennau'r Cynllun Datblygu sy'n cyfeirio at CMCC (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Cynllunio Lleol, wedi'u cynnwys yn unol â'r gwaith monitro Rheoli Datblygu ac Adroddiad Monitro'r Awdurdod (AMR) ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol). Penderfyniadau'r Sefydliad Rheoli Morol (MMO) sy'n cyfeirio at CMCC (Ffynhonnell: MMO)
13. Datblygu sylfaen dystiolaeth forol hygrych a rennir i gefnogi'r defnydd o dystiolaeth gadarn a darparu dull o wella dealltwriaeth o nodweddion a chyfleoedd unigryw Ardal Cynllun Morol Cymru.	Mae sylfaen dystiolaeth well ar gael i helpu i weithredu, monitro ac adolygu'r cynllun morol.	Sicrhau mynediad i'r sylfaen dystiolaeth, deall y sylfaen dystiolaeth, a lle y bo'n briodol, cyfrannu ati	- Y sylfaen dystiolaeth gyfredol – dosbarthiad, ansawdd, hygrychedd, a yw'n ofodol ai peidio (Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru/WMER a'r Porth Cynllunio Morol) - Rhaglenni tystiolaeth a rhyngweithio â CMCC (e.e. y Strategaeth Tystiolaeth Forol)	Ansawdd a pherthnasedd y dystiolaeth – y setiau data sydd ar gael ar Borth Cynllunio Morol Cymru. Adroddiad WMER wedi'i ddiweddarau, ar gael ac yn gysylltiedig â dangosyddion polisi. Cynnydd o ran cyflwyno Strategaeth Tystiolaeth Forol Llywodraeth Cymru/Cyfoeth Naturiol Cymru.

Monitro'r polisi

Mae diffinio'r berthynas rhwng elfennau'r CMCC (amcanion a pholisïau) a'r HLMOs yn fan cychwyn pwysig ar gyfer deall sut mae CMCC yn gweithio a deall yr hyn sydd angen ei fonitro. Mae Tabl 2 yn nodi hyn. Er y disgwylir y bydd rhai polisïau yn

cyfrannu at gyflawni amcanion lluosog (gweler tabl 3 o'r CMCC), at ddibenion datblygu cyfres o ddangosyddion penodol a chymesur, mae pob polisi wedi'i fapio yn erbyn y prif amcan y bydd yn ei gyflawni.

Tabl 2. Y berthynas rhwng amcanion a pholisïau HLMOs a CMCC

Thema HLMO	Amcanion CMCC	Polisïau CMCC (wedi'u mapio i'r prif amcan)
Cyffredinol	1. Cynorthwyo datblygiad cynaliadwy ardal forol Cymru trwy gyfrannu at nodau llesiant Cymru, gan helpu i Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) trwy ystyried effeithiau cronol yr holl ddefnydd o'r amgylchedd morol	GEN_01 GOV_01
Sicrhau economi forol gynaliadwy	2. Cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru trwy hyrwyddo gweithgareddau economaidd gynhyrchol a busnesau proffidiol a chynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar bob lefel sgiliau.	ECON_01 a'r polisïau sector canlynol a'u hamcanion: AGG, AQU, D&D, O&G _ 1a, FIS, P&S, CAB
	3. Cefnogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy trwy sicrhau'r datblygiad cywir yn y lle cywir, gan helpu i gyflawni amcanion diogelwch ynni a lleihau allyriadau carbon y DU, ac ystyried buddiannau eraill yn llawn, a chadernid ecosystemau.	Polisïau ac amcan(ion) sector ELC
	4. Darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd presennol ac yn y dyfodol trwy reoli defnyddiau lluosog, hyrwyddo cydfodolaeth gweithgareddau cydnaws, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr ac, os oes modd, lleihau dadleoli gweithgareddau presennol.	ECON_02, SAF_01, SAF_02 a DEF_01
	5. Cydnabod gwerth sylweddol twristiaeth a hamdden arfordirol i economi a llesiant Cymru a sicrhau bod gweithgarwch o'r fath a'r potensial ar gyfer twf yn y dyfodol yn cael eu diogelu'n briodol.	T&R_01
Sicrhau cymdeithas gadarn, iach a chyflawn	6. Cyfrannu at ddatblygu cymunedau arfordirol bywiog, tecach, cydlynus a chryf sy'n unigryw o safbwynt diwylliant ac iaith.	SOC_02 a SOC_04
	7. Cefnogi mwynhad a stiwardiaeth o'n harfordir a'n moroedd a'u hadnoddau trwy hyrwyddo mynediad teg a diogel i amgylchedd morol cryf, gan ddiogelu a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau treftadaeth gwerthfawr.	SOC_01, 05, 06 a 07
	8. Gwella dealltwriaeth a galluogi camau gweithredu sy'n cefnogi'r broses o liniaru ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.	SOC_08, 09, 10, 11

Thema HLMO	Amcanion CMCC	Polisiâu CMCC (wedi'u mapio i'r prif amcan)
Byw oddi mewn i derfynau amgylcheddol	9. Helpu i ennill a chadw Statws Amgylcheddol Da (GES) a Statws Ecolegol Da (GeS).	ENV_03, 04, 05, 06, 07
	10. Diogelu, gwarchod, adfer a gwella bioamrywiaeth y môr er mwyn atal a gwrthdroi ei dirywiad gan gynnwys helpu i ddatblygu a gweithredu rhwydwaith wedi'i reoli'n dda a'i gydgyssylltu'n ecolegol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a phoblogaethau gwydn o rywogaethau cynrychioliadol, prin a bregus.	ENV_01
	11. Cynnal a gwella cryfder ecosystemau morol a'r manteision sy'n deillio ohonynt er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.	ENV_02
Hyrwyddo llywodraethu da	12. Cefnogi penderfyniadau cymesur, cyson ac integredig trwy roi polisiâu blaengar ar waith fel rhan o ddull rheoli moroedd Cymru sy'n seiliedig ar gynllun, yn rhagofalus, yn seiliedig ar risg ac y gellir ei addasu.	GOV_02 GEN_02
Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol	13. Datblygu sylfaen dystiolaeth forol hygyrch a rennir i helpu i ddefnyddio tystiolaeth gadarn a datblygu dull o ddeall nodweddion a chyfleoedd unigryw Ardal Forol Cymru yn well.	SCI_01

Yn yr un modd â dangosyddion penderfynu'r cynllun morol, mae'n ddefnyddiol defnyddio dull cam wrth gam i nodi dangosyddion polisi, fel sy'n cael ei nodi ar gyfer nifer o bolisiâu enghreifftiol yn Nhabl 3 (isod). Ar gyfer dangosyddion polisi, mae hyn yn cynnwys pennu **amcan a chanlyniad dymunol** pob polisi, fel bod modd nodi dangosyddion a mesurau sy'n gallu asesu'r canlyniadau ymarferol (**effeithiau**) y mae polisiâu CMCC yn cyfrannu atynt. Hefyd, bydd angen i fesurau monitro i ba raddau y mae polisi penodol yn cael ei ddefnyddio gan ymgeiswyr i gefnogi eu cynigion a/neu gael eu hystyried gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Wrth roi'r dull gweithredu hwn ar waith gydag awdurdodau cyhoeddus perthnasol a rhanddeiliaid, bydd modd nodi dangosyddion, ffynonellau gwybodaeth sylfaenol a ffynonellau gwybodaeth fonitro yn y dyfodol, yn ogystal â'r cysylltiadau â monitro cynaliadwyedd (gweler adran 2.4).

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen diffiniad gofalus o'r dangosydd o safbwynt sector, tymor a daearyddiaeth. Hefyd, bydd angen ystyried y potensial ar gyfer effeithiau polisi sy'n gorgyffwrdd, e.e. rhwng polisiâu ategol y sectorau a'r polisiâu cydfodoli (ECON_02) a diogelu (SAF_01), sy'n gallu cyfrannu at gynyddu cynhyrchiant sector penodol.

Yn bwysig, nodir bod dylanwadau eraill, y tu allan i'r CMCC, yn gallu cymhlethu dealltwriaeth glir o effaith y CMCC a'r polisiâu sydd wedi'u gweithredu. Gallai fod yn fanteisiol nodi rhai ffynonellau dylanwad allanol posibl fel rhan o'r broses o ddatblygu dangosyddion polisi er mwyn eu hystyried mewn unrhyw adolygiad polisi dilynol neu gamau gweithredu wedi'u targedu. Hefyd, gellir crynhoi'r dylanwadau hyn mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol fel "gwybodaeth gyd-destunol" a fyddai'n rhan o'r naratif sy'n cyd-fynd â gwybodaeth fonitro am bob polisi neu amcan.

Tabl 3. Fframwaith enghreifftiol ar gyfer nodi dangosyddion polisi

Polisi	Amcan a chanlyniadau'r polisi (o CMCC)	Mesurau/dangosyddion polisi posibl
HLMO: Sicrhau economi forol gynaliadwy		
T&R_01a: Bydd cynigion sy'n amlygu cyfraniad cadarnhaol at gyfleoedd ac amcanion polisi twristiaeth a hamdden (ar gyfer y sector) o amgylch arfordir Cymru yn cael eu cefnogi lle maent yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â pholisïau cyffredinol a pholisïau diogelu sectorau perthnasol y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. T&R_01b: Mae awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector yn cael eu hannog, gyda phartïon eraill â buddiant, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden gynaliadwy o amgylch arfordir Cymru, gan gynnwys: a. datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i wella dealltwriaeth o weithgareddau twristiaeth a hamdden ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan gynnwys eco-dwristiaeth a gweithgareddau eraill sy'n cael effaith isel; a b. chyfleoedd i ddiffinio ardaloedd lle mae yna gyfle yn y dyfodol i ddatblygu twristiaeth a hamdden; er mwyn helpu i ddatblygu'r sector twristiaeth a hamdden mewn ffordd gynaliadwy trwy gynllunio morol.	Cefnogi cynigion sy'n gallu gwneud cyfraniad cadarnhaol at y potensial ar gyfer datblygu'r sector mewn ffordd gynaliadwy. Cynnydd mewn twristiaeth a hamdden gynaliadwy Hyrwyddo mentrau newydd a dulliau cydweithio er mwyn nodi cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau twristiaeth a hamdden mewn ffordd gynaliadwy a datblygu'r sylfaen dystiolaeth. Cynyddu nifer y prosiectau cydweithredol a gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y sector hwn	Nifer y cynigion/ceisiadau sy'n nodi'r polisi hwn (a dadansoddiad o'r tueddiadau h.y. cynnydd neu ostyngiad o'r llinell sylfaen). (Ffynhonnell: CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Harbwr) Nifer yr achosion o ganiatáu neu wrthod caniatáu gweithgareddau neu ddatblygiad yn ymwneud â thwristiaeth a hamdden (a dadansoddi'r tueddiadau). (Ffynhonnell: CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Harbwr) Dyrannwyd cyllid i gyfran twristiaeth gydweithredol a phrosiectau galluogi. (Ffynhonnell: CNC, Llywodraeth Cymru) Sylfaen dystiolaeth twristiaeth a hamdden. (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru e.e. Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru/Porth Cynllunio Morol Cymru)

Polisi	Amcan a chanlyniadau'r polisi (o CMCC)	Mesurau/dangosyddion polisi posibl
HLMO: Sicrhau economi forol gynaliadwy		
ECON_02: Dylai'r cynigion amlygu sut y maent wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli â sectorau cydweddol eraill er mwyn manteisio ar werth a defnyddio'r ardal forol ac adnoddau naturiol y môr.	Cynnal cydfodolaeth gweithgareddau a defnyddiau perthnasol trwy hyrwyddo cynigion i ystyried cyfleoedd sy'n dod â gweithgareddau gwahanol ond cydweddol at ei gilydd i wneud y defnydd gorau posibl o ofod morol ac adnoddau naturiol dros amser. Cynyddu gofod sy'n economaidd weithgar yn ardal y cynllun morol. Cynyddu dwysedd ac amrywiaeth defnydd gofod economaidd weithgar yn ardal y cynllun morol.	Nifer y cynigion/ceisiadau sy'n nodi'r polisi hwn a/neu'n ystyried cyfleoedd cydfodolaeth (a dadansoddiad o'r tueddiadau h.y. cynnydd neu ostyngiad o'r llinell sylfaen). (Ffynhonnell: e.e. CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio) Nifer yr achosion o ganiatáu neu wrthod caniatáu cynigion sy'n cynnwys cydfodolaeth â gweithgaredd arall (a dadansoddi'r tueddiadau) (Ffynhonnell: CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Harbwr) Tystiolaeth bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid eraill yn sefydlu grwpiau cyswllt neu reoli er mwyn hwyluso cydfodolaeth rhwng sectorau cydnaws (ansoddol). Newid mewn dwysedd a phatrymau defnydd morol. (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru/Porth Cynllunio Morol Cymru)
HLMO: Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn		
SOC_05: Dylai cynigion ddangos sut mae effeithiau dichonol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau wedi cael eu hystyried yn gynnar a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth: a. osgoi effeithiau niweidiol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau; a/neu b. lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu c. liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau. Os na ellir ymdrin yn ddigonol ag effeithiau niweidiol arwyddocaol, dylai cynigion gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw. Cefnogir cyfleoedd i wella asedau hanesyddol.	Atal colli asedau hanesyddol, neu ddifrod sylweddol iddynt, o ganlyniad i ddatblygiad amhriodol neu anwybodus ac, os oes modd, nodi a manteisio ar gyfleoedd i'w gwella. Ansawdd a gwerth asedau hanesyddol sy'n cael eu cynnal ac, os yn bosibl, eu gwella.	Nifer y cynigion/ceisiadau sy'n nodi'r polisi hwn (a dadansoddiad o'r tueddiadau h.y. cynnydd neu ostyngiad o'r llinell sylfaen) (Ffynhonnell: e.e. CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio) Tueddiadau o ran nifer, maint, math a chyflwr yr asedau hanesyddol dynodedig ar y môr ac mewn ardaloedd arfordirol. Canran asedau dynodedig yr amgylchedd hanesyddol sydd mewn cyflwr sefydlog neu well. (Ffynhonnell: CADW a Llywodraeth Cymru) Nifer yr achosion o ganiatáu neu wrthod caniatáu cynigion a fyddai'n cael effeithiau andwyol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau na ellir eu hosgoi/leihau/liniaru. Nifer y cynigion a ganiatawyd sy'n cynnwys mesurau i wella asedau hanesyddol. (Ffynhonnell: Tîm Trwyddedu Morol CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Ystâd y Goron) Cyllid a ddyrennir i brosiectau sy'n gwella asedau hanesyddol. (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, CADW)

Polisi	Amcan a chanlyniadau'r polisi (o CMCC)	Mesurau/dangosyddion polisi posibl
HLMO: Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn		
SOC_10: Dylai'r cynigion ddangos sut maent yn gwneud y canlynol (mewn trefn flaenoriaeth): - osgoi allyrru nwyon tŷ gwydr; a/neu - eu lleihau lle na ellir eu hosgoi; a/neu - eu lliniaru lle na ellir eu lleihau. Lle na ellir ymdrin yn ddigonol ag allyrru arwyddocaol ar nwyon tŷ gwydr, dylai cynigion ar gyfer gweithgareddau a reoleiddir gyflwyno cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen â nhw.	Sicrhau bod cynigion yn ystyried yr holl allyriadau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad neu'r gweithgarwch arfaethedig (gan gynnwys nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag adeiladu a gweithredu) yn ogystal ag allyriadau sy'n gysylltiedig yn anuniongyrchol â'r datblygiad neu'r gweithgarwch (fel siwrneiau hirach ar gyfer cychod o ganlyniad i ddatblygiad). Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o gynigion sydd â'r potensial i effeithio ar ardal y cynllun morol.	Nifer y cynigion/ceisiadau sy'n nodi'r polisi hwn a/neu'n ystyried allyriadau nwyon tŷ gwydr posibl (a dadansoddiad o'r tueddiadau h.y. cynnydd neu ostyngiad o'r llinell sylfaen). (Ffynhonnell: e.e. CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio) Achos dros fwrw ymlaen â chynigion sydd wedi cael caniatâd pan nad oedd modd osgoi, lleihau neu lliniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol (ansoddol). Cyfanswm, newid a thuedd mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig â'r môr (kCO₂e). (Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru)
HLMO: Byw oddi mewn i derfynau amgylcheddol		
ENV_01: Dylai'r cynigion ddangos sut mae effeithiau posibl ar ecosystemau morol wedi'u hystyried, a dylent wneud y canlynol (mewn trefn flaenoriaeth): - osgoi effeithiau andwyol; a/neu - lleihau effeithiau os nad oes modd eu hosgoi; a/neu - liniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau. Os na ellir osgoi, lleihau neu lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir sy'n argyhoeddi dros barhau. Anogir cynigion sy'n cyfrannu at ddiogelu, adfer a/neu wella ecosystemau morol.	Sicrhau bod elfennau biolegol a daearegol ecosystemau yn cael eu cynnal, eu hadfer lle bo angen a'u gwella lle bo'n bosibl, er mwyn cynyddu cryfder ecosystemau morol a'r manteision sy'n deillio ohonynt. <i>Cynnydd mewn bioamrywiaeth (mae bioamrywiaeth yn cael ei diogelu, ei gwarchod, a'i hadfer a'i gwella lle bo hynny'n briodol).</i> <i>Amgylchedd bioamrywiol ac ecosystem iach a chryf.</i>	Nifer y cynigion/ceisiadau sy'n nodi'r polisi hwn (a dadansoddiad o'r tueddiadau h.y. cynnydd neu ostyngiad o'r llinell sylfaen). Nifer yr achosion o ganiatáu neu wrthod caniatáu cynigion a fyddai'n cael effeithiau andwyol ar ecosystemau morol na ellir eu hosgoi/lleihau/liniaru. Nifer y cynigion a ganiatawyd sy'n ymwneud ag adfer a gwella cynefinoedd. (Ffynhonnell: e.e. CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio) Dangosyddion bioamrywiaeth a chryfder morol o'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR). (Ffynhonnell: CNC)

Polisi	Amcan a chanlyniadau'r polisi (o CMCC)	Mesurau/dangosyddion polisi posibl
ENV_03: Dylai cynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol. Lle bo'n briodol, dylai cynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron.	Lleihau neu atal rhywogaethau goresgynnol estron rhag cael eu cyflwyno neu eu lledaenu.	Nifer y cynigion/ceisiadau sy'n nodi'r polisi hwn a/neu'n cynnwys mesurau bioddiogelwch (a dadansoddiad o'r tueddiadau h.y. cynnydd neu ostyngiad o'r llinell sylfaen). (Ffynhonnell: e.e. CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Arolygiaeth Gynllunio) Dosbarthiad rhywogaethau goresgynnol estron yn ardal y cynllun morol (gan gynnwys dadansoddiad o'r tueddiadau). (Ffynhonnell: CNC/Porth Cynllunio Morol Cymru)

Monitro Cynaliadwyedd

Fel sy'n ofynnol o dan Atodlen 6 (Rhan 10) o'r MCAA, cwblhawyd Arfarniad o Gynaliadwyedd (SA) er mwyn asesu'r CMCC yn erbyn ystod o feini prawf economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol a helpu i sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn rhan annatod o'r CMCC.

Mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn amlinellu 14 o feini prawf sy'n cynrychioli canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol dymunol y CMCC ac yn ymwneud â lleihau effeithiau andwyol posibl a gwella effeithiau cadarnhaol. Trwy arfarnu polisiâu'r CMCC

yn erbyn y meini prawf, gellir nodi sut y byddant yn cyfrannu at gynaliadwyedd, sut y gallent gael effaith andwyol, a sut y gellid gwella unrhyw effeithiau cadarnhaol.

Hefyd, mae gofynion Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni 2004 (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu CMCC (gweler tabl 4 isod) gan gynnwys unrhyw effeithiau amgylcheddol andwyol nas rhagwelwyd.

Tabl 4: Crynodeb o'r effeithiau sylweddol a nodwyd gan yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Effeithiau Cadarnhaol Sylweddol		Effeithiau Negyddol Sylweddol	Cysylltiad ag Amcan CMCC
	Polisiâu Cyffredinol	Polisiâu Sectorau		
1. Bioamrywiaeth	SOC_03, ENV_01 - 06			10
2. Dŵr	SOC_03, ENV_01, 02, 04, 06	SAF_01		9
3. Yr Amgylchedd Ffisegol	SOC_08, 09, ENV_01, 02			11
4. Ansawdd Aer	SOC_03, ENV_06			9
5. Tirwedd a Morwedd	SOC_05, 06, 07		ELC_01	7
6. Newid Hinsawdd	SOC_08, 09, 10, 11, 12	SAF_01, ELC_01, 02, 03, O&G_02, CAB_01		8
7. Treftadaeth	SOC_04, 05, 07			7
8. Y Gymraeg	SOC_04			6

Meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd	Effeithiau Cadarnhaol Sylweddol		Effeithiau Negyddol Sylweddol	Cysylltiad ag Amcan CMCC
	Polisiau Cyffredinol	Polisiau Sectorau		
9. Twristiaeth	ECON_01, SOC_01, 05, 07	SAF_01, T&R_01		5
10. Adnoddau	SOC_10, ENV_04	AGG_01, ELC_01, 02, 03, CAB_01		3
11. Yr Economi	ECON_01, 02, SOC_09, ENV_03	SAF_01, AGG_01, AQU_01, D&D_01, ELC_01, 02, 03, P&S_01, 02, CAB_01, T&R_01		2
12. Llesiant	ECON_01, SOC_02, 03	ELC_01, 03, P&S_01, 02, CAB_01, T&R_01		6
13. Iechyd	SOC_03, 09, ENV_06	SAF_01, T&R_01		6
14. Llywodraethu	GEN_02, ECON_02, GOV_01, 02, SCI_01	ELC_01		12

Mae Atodiad G o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cynnwys rhestr o ddangosyddion enghreifftiol ar gyfer monitro cynaliadwyedd, ond mae'n nodi eu bod yn ddangosyddion dros dro a dangosol. Fel rhan o fframwaith monitro integredig ar gyfer y Cynllun, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu croesgyfeirio'r asesiad manwl o effeithiau sylweddol pob polisi yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd â'r dangosyddion a nodwyd trwy ystyried nodau a chanlyniadau polisi (gweler Adran 2.3 uchod).

Bydd hyn yn sicrhau, lle y bo'n berthnasol, **y bydd gan bob polisi ddangosyddion ar gyfer meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd sydd wedi'u heffeithio'n sylweddol gan y polisi yn ôl yr asesiad.**

Er enghraifft, ar gyfer **polisi ELC_01 Ynni carbon isel (cynnal) gwynt** mae effeithiau cadarnhaol sylweddol wedi'u nodi ar gyfer:

- **Newid yn yr hinsawdd ac adnoddau:** yn yr hirdymor, aseswyd bod ffermydd gwynt ar y môr (OWF) yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar y newid yn yr hinsawdd a'r defnydd o adnoddau. Fodd bynnag, yn y tymor byr, bydd y gwaith o adeiladu ffermydd gwynt yn defnyddio ynni a deunyddiau crai, gan arwain at fân effeithiau negyddol cymysg hefyd. Felly, gall fod yn bwysig monitro'r mewnbwn/allbwn ar gyfer datblygiad OWF newydd er mwyn sicrhau bod y manteision yn drech na'r costau

- **Economi a llesiant:** mae yna botensial i fuddsoddi'n sylweddol mewn economïau lleol a'r gadwyn gyflenwi ar gyfer datblygiad OWF newydd, ac i fuddsoddi mewn cymunedau trwy gronfeydd cymunedol; gellid monitro hyn er mwyn deall effaith manteision yn lleol.
- **Llywodraethu:** dylai cydweithio rhwng awdurdodau cyhoeddus, diwydiant ac ymchwilwyr perthnasol sy'n arwain at ragor o gynllunio strategol a chasglu tystiolaeth ar gyfer y sector OWF gael effaith gadarnhaol sylweddol ar lywodraethu o safbwynt dadrisgio caniatâd a sicrhau bod gwaith datblygu'r sector hwn yn ardal y cynllun morol yn mynd rhagddo mewn ffordd gynaliadwy. Gellid monitro cynnydd yn y maes hwn ac argaeledd tystiolaeth newydd yn ymwneud â chyfyngiadau a chyfleoedd ar gyfer y sector OWF.

Nodwyd effaith negyddol sylweddol o safbwynt **tirwedd a morwedd** oherwydd natur ffermydd gwynt mawr ar y môr a sensitifwydd cyfran fawr o arfordir Cymru (mae 54% ohono wedi'i ddynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) neu'n Barc Cenedlaethol). Fodd bynnag, mae'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn nodi bod modd lleihau maint effaith weledol datblygiadau gwynt ar y môr trwy eu lleoli ymhell o ardaloedd sensitif a dilyn canllawiau ar gynllun a dyluniad. Felly, bydd yn bwysig monitro a yw'r mesurau lliniaru hyn yn cael eu defnyddio.

Mae Tabl 5 (isod) yn crynhoi sut y gellir nodi dangosyddion ar gyfer yr effeithiau sylweddol posibl hyn naill ai drwy eu cysylltu â dangosyddion polisi (sy'n adlewyrchu nod a chanlyniad dymunol pob polisi) neu nodi dangosyddion ychwanegol.

Tabl 5: Dangosyddion polisi a chynaliadwyedd enghreifftiol ar gyfer y polisïau ELC_01

Polisi	Nod a chanlyniadau'r polisi (o CMCC)	Mesurau/dangosyddion polisi posibl (gan nodi'r cysylltiad â dangosyddion/meini prawf yr Arfarniad o Gynaliadwyedd):
ELC_01 Ynni carbon isel (cefnogi) gwynt		
ELC_01a: Bydd cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ar y môr yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai cynigion gydymffurfio â'r polisïau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu sectorau'r cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried cynigion ar gyfer ynni gwynt dros 350MW yn unol â'r polisi cenedlaethol perthnasol. Wrth benderfynu ar Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ar gyfer cynnig ynni gwynt, bydd y sawl sy'n penderfynu yn rhoi sylw i'r cynllun hwn.	Cefnogi defnydd masnachol pellach o dechnolegau gwynt ar y môr ar raddfa dros oes y cynllun hwn. <i>Mae datblygiadau gwynt pellach ar y môr yn cyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio ein heconomi, ac at ein ffyniant.</i>	Cyfanswm y datblygiadau OWF newydd yn nyfroedd Cymru a'u cyfraniad at gyrraedd targed Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy. (cysylltiadau â meini prawf newid hinsawdd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd). Lefel cyflogaeth yn y sector OWF. Nifer y busnesau lleol yn y sector OWF. (cysylltiadau â meini prawf economi'r arfarniad o gynaliadwyedd). Dangosyddion Arfarniad o Gynaliadwyedd ychwanegol: Tirwedd a Morwedd: lleoliad datblygiad OWF newydd mewn perthynas â'r parthau clustogi maint isel a chanolig ar gyfer effaith weledol, a nodwyd yng nghanllawiau CNC.¹² Newid yn yr hinsawdd ac adnoddau: dadansoddiad cylch oes o unrhyw OWF newydd er mwyn dadansoddi'r carbon a'r adnoddau a ddefnyddiwyd ar gyfer y datblygiad o'u cymharu â'r carbon a'r adnoddau a fydd yn cael eu harbed dros oes y fferm wynt. Llesiant: cyfraniad cronfeydd cymunedol OWF at lesiant cymunedau arfordirol.
ELC_01 b: Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau gwynt ar y môr, gan gynnwys mathau o dechnoleg arnofiol, mae'r cynllun hwn yn cefnogi cynlluniau strategol ar gyfer y sector. Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau ynni gwynt yn gynaliadwy.	Cynorthwyo awdurdodau cyhoeddus, y diwydiant ac ymchwilwyr perthnasol i gydweithio er mwyn deall yn well a nodi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau gwynt ar y môr newydd yn y dyfodol. <i>Gwella dealltwriaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu'r sector gwynt ar y môr mewn ffordd gynaliadwy yn ardal y cynllun morol.</i>	Cynlluniau strategol newydd neu gasglu tystiolaeth ar gyfer OWF yn nyfroedd Cymru. Argaeledd tystiolaeth ar gyfer y sector OWF yn ardal y cynllun morol (e.e. ar y Porth Cynllunio Morol). Cynnydd y gwaith o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl ar gyfer diogelu adnoddau ynni gwynt ar y môr yn ardal y cynllun morol. (cysylltiadau â meini prawf llywodraethu)

¹² Gwyn, S. Michaels, S. Brenin, H. 2019. Morluniau Cymru a'u sensitifrwydd i ffermydd gwynt ar y môr: asesiad ac arweiniad strategol. Cam 1- Canllaw cyflym o effeithiau gwledol sy'n gysylltiedig â maint y tyrbîn. Cyfres Tystiolaeth Cyfoeth Naturiol Cymru Adroddiad Rhif: 315, 94tt, CNC, Bangor

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau i weithio gyda'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG) a'r Grŵp Penderfynwyr Cynllunio Morol (MPDMG) i ddatblygu set gyflawn o ddangosyddion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a gwybodaeth sylfaenol a monitro ategol gan ddefnyddio'r dull gweithredu sydd wedi'i amlinellu yn y fframwaith hwn a'r canllawiau gweithredu sydd wedi'u llunio i gefnogi'r Cynllun.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
cynlluniomorol@llyw.cymru



Atodiad 1 – Gweledigaeth, Amcanion a Pholisïau

Gweledigaeth y Cynllun

Mae moroedd Cymru yn lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchol ac yn fiolegol amrywiol:

- Trwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystem, mae adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ac mae ein moroedd yn iach ac yn gydnerth, ac yn cefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus.
- Trwy fynediad i'r amgylchedd morol a threftadaeth ddiwylliannol forol, a dealltwriaeth a mwynhad ohonynt, mae iechyd a llesiant yn gwella.
- Trwy Dwf Glas mae mwy o swyddi a chyfoeth yn cael eu creu sy'n helpu cymunedau arfordirol i ddod yn fwy cydnerth, ffyniannus a theg gyda diwylliant bywiog.
- Thrwy ddefnyddio technolegau carbon isel yn gyfrifol, mae ardal forol Cymru yn gwneud cyfraniad cryf at ddiogelu ffynonellau ynni a chyflawni targedau allyriadau newid yn yr hinsawdd.

Amcanion y Cynllun

Thema HLMO	Amcan	
Cyffredinol	1	Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, gan sicrhau bod Adnoddau Naturiol yn cael eu Rheoli'n Gynaliadwy (SMNR) drwy ystyried effeithiau cronol yr holl ffyrdd o ddefnyddio'r amgylchedd morol.
	2	Cyfrannu at economi ffyniannus yng Nghymru drwy hybu gweithgareddau economaidd gynhyrchol a phroffidiol a busnesau cynaliadwy sy'n creu cyflogaeth hirdymor ar yr holl lefelau sgiliau.
Sicrhau economi forol gynaliadwy	3	Cefnogi'r cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy morol yn gynaliadwy trwy sicrhau'r datblygiad cywir yn y lle cywir, gan helpu i gyflawni amcanion diogelwch ynni a lleihau allyriadau carbon y DU, gan roi ystyriaeth lawn i fuddiannau eraill a chydnerthedd ecosystemau.
	4	Darparu lle i gefnogi gweithgarwch economaidd yn awr ac yn y dyfodol drwy reoli amldefnydd, gan hybu cydfodolaeth rhwng gweithgareddau cydweddol, lliniaru gwrthdaro rhwng defnyddwyr a, lle bo modd, drwy leihau'r dadleoli ar weithgareddau presennol.
	5	Cydnabod gwerth sylweddol twristiaeth a hamdden arfordirol i economi a llesiant Cymru a sicrhau bod gweithgarwch o'r fath a'r potensial ar gyfer twf yn y dyfodol yn cael eu diogelu'n briodol.
Sicrhau cymdeithas gryf, iach a chyflawn	6	Helpu i ddatblygu cymunedau arfordirol sy'n fywiog, yn decach, yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol neilltuol, yn gydlynus ac yn gydnerth.
	7	Hybu mwynhad a stiwardiaeth ar ein harfordir a'n moroedd a'u hadnoddau trwy hyrwyddo mynediad teg a diogel i amgylchedd morol cryf, gan ddiogelu a hyrwyddo tirweddau, morweddau ac asedau treftadaeth gwerthfawr.
	8	Gwella dealltwriaeth a galluogi camau gweithredu sy'n cefnogi'r broses o liniaru ac ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd.

Thema HLMO	Amcan	
Byw o fewn terfynau amgylcheddol	9	Helpu i ennill a chadw Statws Amgylcheddol Da (GES) a Statws Ecolegol Da (GeS).
	10	Diogelu, cadw, adfer a gwella bioamrywiaeth forol er mwyn atal a gwrthdroi ei dirywiad gan gynnwys helpu i ddatblygu a gweithredu rhwydwaith wedi'i reoli'n dda a'i gydgyssylltu'n ecolegol o Ardaloedd Morol Gwarchodedig a phoblogaethau cydnerth o rywogaethau cynrychioliadol, prin a bregus.
	11	Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol a'r buddion y maent yn eu rhoi er mwyn bodloni anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
Hyrwyddo llywodraethu da	12	Cefnogi penderfyniadau cymesur, cyson ac integredig trwy weithredu polisiau blaengar trwy ddull rhagofalus ac ymaddasol o reoli moroedd Cymru sy'n cael ei arwain gan gynllun ac yn seiliedig ar risgiau.
Gwneud defnydd cyfrifol o dystiolaeth wyddonol	13	Datblygu sylfaen dystiolaeth forol hygyrch a rennir i hybu'r defnydd o dystiolaeth gadarn a darparu mecanwaith i gael gwell dealltwriaeth o nodweddion unigryw Ardal Forol Cymru a'r cyfleoedd y mae'n eu cynnig.

Polisiau Cyffredinol

GEN_01: Polisi cynllunio

Mae rhagdybiaeth o blaid datblygu ardal y cynllun yn gynaliadwy er mwyn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru.

GEN_02: Polisi cynllunio

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol ymdrin â pholisïau cynllunio morol perthnasol mewn ffordd gymesur, seiliedig ar risg wrth wneud penderfyn.

ECON_01: Twf economaidd cynaliadwy

Anogir cynigion ar gyfer gweithgareddau sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn enwedig os ydynt yn cyfrannu at:

- reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan gefnogi cydnerthedd ecosystemau;
- economi gryfach;
- cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer cymunedau arfordirol yn benodol;
- amddiffyn a chreu cyflogaeth ar bob lefel sgiliau;
- cynnal cymunedau â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg; a/neu

- drechu tlodi trwy gefnogi cymunedau arfordirol difreintiedig.

ECON_02: Cydfodolaeth

Dylai'r cynigion amlygu sut y maent wedi ystyried cyfleoedd ar gyfer cydfodoli â sectorau cydweddol eraill er mwyn optimeiddio gwerth yr ardal forol ac adnoddau naturiol morol a'r defnydd ohonynt.

SOC_01: Mynediad i'r amgylchedd morol

Anogir cynigion sy'n cadw neu'n gwella mynediad i'r amgylchedd morol.

SOC_02: Llesiant cymunedau'r arfordir

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at lesiant cymunedau arfordirol.

SOC_03: Digwyddiadau sy'n llygru'r môr

Dylai'r cynigion ddangos sut y maent yn lleihau'r perygl y gallant achosi digwyddiadau sy'n llygru'r môr neu gyfrannu atynt.

SOC_04: Yr Iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

SOC_05: Asedau hanesyddol

Dylai'r cynigion ddangos sut mae'r effeithiau posibl ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau wedi'u hystyried a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

- a) osgoi effeithiau niweidiol ar asedau hanesyddol a'u lleoliadau; a/neu
- b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Mae cyfleoedd i wella asedau hanesyddol yn cael eu hyrwyddo.

SOC_06: Tirweddau dynodedig

Dylai'r cynigion ddangos sut mae'r effeithiau posibl ar y dibenion a'r rhinweddau arbennig sy'n sylfaen i ddynodi Parciau Cenedlaethol neu Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol wedi'u hystyried a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth):

- a) osgoi effeithiau niweidiol ar dirweddau dynodedig; a/neu
- b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Anogir cyfleoedd i wella tirweddau dynodedig.

SOC_07: Morweddau

Dylai'r cynigion ddangos sut mae effeithiau posibl ar forweddau wedi'u hystyried a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

- a) osgoi effeithiau niweidiol ar forweddau; a/neu
- b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Anogir cyfleoedd i wella morweddau.

SOC_08: Gwrthsefyll newid a llifogydd arfordirol

Dylai'r cynigion ddangos sut maent yn gallu gwrthsefyll newid arfordirol a llifogydd yn ystod eu hoes.

SOC_09: Effeithiau ar newid arfordirol a llifogydd

Dylai'r cynigion ddangos sut maent yn gwneud y canlynol:

- osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar brosesau arfordirol; a
- lleihau'r perygl o newid arfordirol a llifogydd;

Anogir cynigion sy'n cyd-fynd â'r Cynllun/Cynlluniau Rheoli Traethlin perthnasol a'i bolisiâu/eu polisiâu.

SOC_10: Lleihau effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Dylai'r cynigion ddangos sut maent yn gwneud y canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- a) osgoi allyrru nwyon tŷ gwydr; a/neu
- b) lleihau allyriadau ohonynt lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) eu lliniaru lle na ellir eu lleihau.

Pan nad oes modd osgoi, lleihau neu lliniaru allyriadau nwyon tŷ gwydr sylweddol, mae'n rhaid i gynigion ar gyfer gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

SOC_11: Gwrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd

Dylai'r cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac wedi cynnwys mesurau ymaddasu priodol, gan roi sylw i Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd i Gymru.

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at ymaddasu a/neu liniaru newid yn yr hinsawdd.

ENV_01: Ecosystemau morol cydnerth

Dylai'r cynigion ddangos sut mae effeithiau posibl ar ecosystemau morol wedi'u hystyried a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth):

- a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
- b) lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at ddiogelu, adfer a/neu wella ecosystemau morol.

ENV_02: Ardaloedd Morol Gwarchodedig

Dylai'r cynigion ddangos sut maent:

- yn osgoi effeithiau niweidiol ar Ardaloedd Morol Gwarchodedig unigol a chydlyniant y rhwydwaith cyfan;
- yn rhoi sylw i'r mesurau i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig; ac
- yn osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig nad ydynt yn rhan o'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig.

ENV_03: Rhywogaethau estron goresgynnol

Dylai'r cynigion ddangos sut maent yn osgoi neu'n lleihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynnol.

Lle bo'n briodol, dylai cynigion gynnwys mesurau bioddiogelwch i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau goresgynnol estron.

ENV_04: Sbwriel morol

Dylai'r cynigion ddangos sut maent:

- yn osgoi cyflwyno sbwriel yn fwriadol i ardal y cynllun morol; a
- yn lleihau'r risg o ryddhau sbwriel yn ddamweiniol.

ENV_05: Sŵn tanddwr

Dylai'r cynigion ddangos eu bod wedi ystyried effeithiau sŵn sydd wedi'u creu gan bobl ar yr amgylchedd morol a'u bod, yn nhrefn blaenoriaeth:

- a) yn osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
- b) yn lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) yn lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

ENV_06: Ansawdd aer a dŵr

Dylai'r cynigion ddangos eu bod wedi ystyried eu heffeithiau posibl ar ansawdd aer a dŵr a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

- a) osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
- b) lleihau effeithiau niweidiol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- c) lliniaru effeithiau niweidiol lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

ENV_07: Rhywogaethau a Chynefinoedd Pysgod

Dylai cynigion a allai effeithio ar ardaloedd neu gynefinoedd bwydo, bridio (gan gynnwys silio a meithrin) a mudo rhywogaethau pysgod a physgod cregyn allweddol sydd o bwysigrwydd masnachol neu ecolegol ddangos sut maent yn gwneud y canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- osgoi effeithiau niweidiol ar yr ardaloedd hynny; a/neu
- lleihau effeithiau niweidiol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- lliniaru effeithiau niweidiol lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

GOV_01: Effeithiau cronol

Dylai'r cynigion ddangos eu bod wedi asesu effeithiau cronol posibl a dylent, yn nhrefn blaenoriaeth:

- osgoi effeithiau niweidiol; a/neu
- lleihau effeithiau lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- lliniaru effeithiau lle na ellir eu lleihau.

Os na ellir osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau niweidiol sylweddol, mae'n rhaid i'r cynigion gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Anogir cynigion sy'n cyfrannu at effeithiau cronol cadarnhaol.

GOV_02: Cydnawsedd trawsffiniol y cynllun

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol, wrth wneud eu penderfyniadau, ystyried y canlynol:

- unrhyw bolisi perthnasol mewn cynllun morol perthnasol;
- unrhyw bolisi perthnasol mewn cynlluniau datblygu daearol perthnasol neu ddogfennau cysylltiedig;
- y Polisi ar Adnoddau Naturiol;
- unrhyw gynllun (iau) llesiant lleol perthnasol (gan gynnwys yr asesiad llesiant lleol); a

- thystiolaeth mewn unrhyw Ddatganiad (au) Ardal perthnasol a luniwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

SCI_01: Defnyddio gwyddoniaeth gadarn mewn ffordd gyfrifol

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol wneud penderfyniadau trwy ddefnyddio tystiolaeth gadarn a dull cymesur sy'n seiliedig ar risg. Lle y bo'n briodol, dylent ddefnyddio'r egwyddor ragofalus ac ystyried cyfleoedd i ddefnyddio dulliau rheoli ymaddasol.

Polisiâu i Gefnogi'r Sector

Agregau

Amcan y Sector

Parhau i ddefnyddio adnoddau agregau morol ar gyfradd ac mewn lleoliadau sy'n diwallu ein hanghenion presennol ac yn y dyfodol trwy ddarparu ar gyfer cronfeydd wrth gefn digonol trwy drwyddedau hirdymor.

AGG_01a: Agregau (cefnogi)

Bydd cynigion ar gyfer echdynnu agregau newydd yn cael eu cefnogi, yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau tunelledd, os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiâu cyffredinol perthnasol a pholisiâu diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

AGG_01b: Agregau (cefnogi)

Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd:

- ar gyfer defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol agregau morol ehangach;
- diffinio Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer agregau, a'u datblygu a'u gwella pan fyddant ar waith;
- er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector agregau trwy gynllunio morol.

Dyframaeth

Amcan y Sector

Hwyluso datblygu dyframaeth mewn ffordd gynaliadwy yn nyfroedd Cymru, gan gynnwys hyrwyddo busnesau arloesol ym meysydd pysgod asgellog, pysgod cregyn ac algâu morol, a'r cadwyni cyflenwi cysylltiedig.

AQU_01a: Dyframaeth (cefnogi)

Bydd cynigion ar gyfer datblygiadau dyframaeth newydd yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

AQU_01b: Dyframaeth (cefnogi)

Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio i ddeall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau dyframaeth mewn ffordd gynaliadwy, gan gynnwys nodi'r canlynol:

- adnoddau naturiol sy'n cynnig potensial o safbwynt dyframaeth
- cyfleoedd i ddiffinio Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer dyframaeth, a'u datblygu a'u gwella pan fyddant ar waith

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector dyframaeth trwy gynllunio morol.

Amddiffyn

Amcan y Sector

Cyfrannu at amddiffyn y genedl trwy sicrhau nad yw gweithgareddau Amddiffyn a Diogelwch Cenedlaethol yn cael eu peryglu.

Carthu a Gwaredu

Amcan y Sector

Cynnal mynediad mordwyo diogel ac effeithiol ar gyfer llongau, cychod pysgota a chychod hamdden a chefnogi twf yn y dyfodol a chynyddu cyfleusterau porthladdoedd a meintiau cychod gan hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy gorau posibl o ddeunydd a garthwyd a sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael ar gyfer gwaredu deunydd.

D&D_01: Carthu a Gwaredu (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n cynnal sianeli mordwyo a mynediad hirdymor i safleoedd gwaredu agored ar y môr ar gyfer deunydd priodol yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Ynni – Carbon Isel

Amcan y Sector

Cyfrannu'n sylweddol at ddatgarboneiddio ein heconomi ac at ein ffyniant trwy gynyddu faint o ynni adnewyddadwy morol a gynhyrchir, trwy:

- Gefnogi defnydd masnachol pellach o dechnolegau gwynt ar y môr ar raddfa dros oes y Cynllun hwn.
- Cefnogi'r broses o ddatblygu ac arddangos technolegau ynni'r tonnau a ffrwd lanw yn y tymor byr i ganolig.
- Cynyddu (lle y bo'n briodol) nifer y dyfeisiau cynhyrchu ynni'r tonnau a ffrwd lanw sy'n cael eu defnyddio mewn datblygiadau ar raddfa fasnachol yn y tymor canolig.
- Gwella dealltwriaeth o'r potensial ar gyfer technoleg ynni morlyn llanw.
- Chydnabod rôl bosibl yr amgylchedd morol mewn cyfleusterau cynhyrchu ynni niwclear arfordirol newydd.

Datblygu Cymru fel enghraifft o dechnoleg ynni adnewyddadwy morol trwy ddatblygu'r sylfaen sgiliau, y seilwaith a'r wybodaeth dechnegol hanfodol i gefnogi datblygiad y diwydiant dros yr 20 mlynedd nesaf.

ELC_01a: Ynni carbon isel (cefnogi) ynni gwynt

Bydd cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni gwynt ar y môr yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried cynigion ar gyfer ynni gwynt dros 350MW yn unol â'r polisi cenedlaethol perthnasol. Wrth benderfynu ar NSIP ar gyfer cynnig gwynt, bydd y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn ystyried y cynllun hwn. Bydd unrhyw benderfyniad yn ymwneud â datblygiadau ynni ar unrhyw raddfa yn cael ei wneud yn unol â'r cynllun hwn ynghyd ag unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

ELC_01b: Ynni carbon isel (cefnogi) ynni gwynt

Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y môr, gan gynnwys mathau o dechnoleg arnofiol, mae'r cynllun hwn yn cefnogi cynlluniau strategol ar gyfer y sector. Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon cysylltiedig eraill, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer defnyddio adnoddau ynni gwynt yn gynaliadwy, gan gynnwys nodi'r canlynol:

- adnoddau naturiol y gellid eu defnyddio yn y dyfodol o bosibl;
- tystiolaeth i ddadrisgio caniatâd ar gyfer y sector; a
- chyfleoedd i ddiffinio Ardaloedd Adnoddau Strategol, a'u datblygu a'u gwella pan fyddant ar waith, er mwyn diogelu adnoddau ynni gwynt ar y môr;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i ddatblygu'r sector mewn modd cynaliadwy trwy gynllunio morol, lle mae'n briodol gwneud hynny.

ELC_02a: Ynni carbon isel (cefnogi) ynni'r tonnau

Bydd cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni'r tonnau yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisïau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

ELC_02b: Ynni carbon isel (cefnogi) ynni'r tonnau

Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni'r tonnau, anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill â diddordeb, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau ynni'r tonnau mewn ffordd gynaliadwy gan gynnwys nodi'r canlynol:

- adnoddau naturiol y gellid eu defnyddio yn y dyfodol o bosibl;
- tystiolaeth i ddadrisgio caniatâd ar gyfer y sector; a
- chyfleoedd i ddiffinio Ardaloedd Adnoddau Strategol, a'u datblygu a'u gwella pan fyddant ar waith, er mwyn diogelu adnoddau ynni'r tonnau;

er mwyn er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i ddatblygu'r sector mewn modd cynaliadwy trwy gynllunio morol, lle mae'n briodol gwneud hynny.

ELC_03a: Ynni carbon isel (cefnogi) ffrwd lanw

Bydd cynigion ar gyfer cynhyrchu ynni ffrwd lanw yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

ELC_03b: Ynni carbon isel (cefnogi) ffrwd lanw

Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygu ynni ffrwd lanw, anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill sydd â diddordeb, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau ynni ffrwd lanw mewn ffordd gynaliadwy gan gynnwys nodi'r canlynol:

- adnoddau naturiol y gellid eu defnyddio yn y dyfodol o bosibl;
- tystiolaeth i ddadrisgïo caniatâd ar gyfer y sector; a
- chyfleoedd i ddiffinio Ardaloedd Adnoddau Strategol, a'u datblygu a'u gwella pan fyddant ar waith, er mwyn diogelu adnoddau ynni ffrwd lanw;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector trwy gynllunio morol.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i ddatblygu'r sector mewn modd cynaliadwy trwy gynllunio morol, lle mae'n briodol gwneud hynny.

ELC_04: Ynni carbon isel (cefnogi) ynni amrediad llanw

Er mwyn deall cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer datblygu amrediad llanw, anogir cynllunio strategol ar gyfer y sector. Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill sydd â diddordeb, i gydweithio er mwyn:

- casglu tystiolaeth i gefnogi dealltwriaeth o gyfyngiadau a chyfleoedd amgylcheddol ar gyfer defnyddio'r adnodd amrediad llanw mewn modd cynaliadwy;
- cefnogi dealltwriaeth o'r lleoliad gorau posibl ar gyfer datblygiadau morlynnoedd llanw ledled Cymru fel rhan o bersbectif ehangach ar gyfer y DU; a
- nodi cyfleoedd i ddiffinio Ardaloedd Adnoddau Strategol, a'u datblygu a'u gwella pan fyddant ar waith, at ddibenion diogelu morlynnoedd llanw.

Dylai awdurdodau cyhoeddus perthnasol sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau er mwyn helpu i ddatblygu'r sector mewn modd cynaliadwy trwy gynllunio morol, lle mae'n briodol gwneud hynny.

Ynni - Olew a Nwy

Ynni - Olew a Nwy

Manteisio i'r graddau mwyaf posibl yn economaidd ar adfer adnoddau olew a nwy'r DU er mwyn darparu cyflenwad diogel, fforddiadwy a dibynadwy o ynni i ddefnyddwyr masnachol a domestig, gan fodloni nodau datgarboneiddio'r DU.

O&G _ 01a: Olew a Nwy (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n manteisio'n llawn ar adnoddau olew a nwy mewn ffordd gynaliadwy yn cael eu cefnogi os ydynt yn cydymffurfio ag amcanion y cynllun hwn, a'u bod yn bodloni'r mesurau diogelu amgylcheddol sydd wedi'u cynnwys yn y prosesau statudol o ddyfarnu trwyddedau cynhyrchu a chaniatâd dilynol ar

gyfer gweithgareddau penodol. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

O&G _ 01b: Olew a Nwy (cefnogi)

Polisi Llywodraeth Cymru yw rhoi'r gorau i echdynnu tanwydd ffosil mewn ardaloedd rhynglanwol ac aberoedd a dyfroedd cilfach arfordirol sy'n perthyn i ardal drwydded ar y tir Cymru. Ni ddylid cefnogi ceisiadau am drwyddedau petrolewm newydd yn yr ardaloedd hyn, oni bai eu bod yn ofynnol ar gyfer diogelwch mwyngloddio neu ddibenion gwyddonol. Mae'n rhaid i gynigion ar gyfer datblygu ac echdynnu olew a nwy ag elfennau ar y tir yn yr ardaloedd hyn ddarparu tystiolaeth gadarn a chredadwy i ddangos sut maent yn cydymffurfio â Hierarchaeth Ynni ar gyfer Cynllunio Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys sut maent yn gwneud cyfraniad angenrheidiol tuag at ddatgarboneiddio'r system ynni.

O&G_02: Olew a Nwy (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n cefnogi datblygu technoleg dal a storio carbon yn yr hirdymor yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Pysgodfeydd

Amcan y Sector

Cefnogi a diogelu sector pysgota amrywiol a phroffidiol yn cynnwys hyrwyddo pysgodfeydd lle mae dalfeydd yn gynaliadwy a sicrhau'r gwerth economaidd mwyaf posibl o'r pysgod a ddelir fel cyflenwad protein cynaliadwy.

FIS_01 a: Pysgodfeydd (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n cefnogi ac yn gwella gweithgareddau pysgota cynaliadwy yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

FIS_01 b: Pysgodfeydd (cefnogi)

Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill sydd â diddordeb, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd i ddatblygu sylfaen dystiolaeth strategol i wella dealltwriaeth o gyfleoedd ar gyfer datblygu pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy er mwyn helpu i ddatblygu'r sector pysgodfeydd mewn modd cynaliadwy trwy gynllunio morol.

Porthladdoedd a Morgludo

Amcan y Sector

Diogelu llwybrau morgludo sefydledig a hybu twf cynaliadwy yn y sector porthladdoedd a morgludo.

P & S_01 a: Porthladdoedd a Morgludo (cefnogi)

Bydd cynigion ar gyfer porthladdoedd, harbyrau a gweithgareddau morgludo yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

P & S_01 b: Porthladdoedd a Morgludo (cefnogi)

Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill sydd â diddordeb, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd i helpu i ddatblygu'r sector porthladdoedd a morgludo mewn ffordd gynaliadwy trwy gynllunio morol.

P & S_02: Porthladdoedd a Morgludo (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n darparu ar gyfer cynnal, atgyweirio, datblygu ac arallgyfeirio cyfleusterau porthladdoedd a harbyrau yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Ceblau o dan y môr

Amcan y Sector

Helpu i ddosbarthu trydan yn y ffordd orau bosibl ac i sicrhau gwell cyfathrebu rhyngwladol drwy dyfu rhwydweithiau cyfathrebu digidol.

CAB_01: Ceblau o dan y môr (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n hwyluso twf rhwydweithiau cyfathrebu digidol a/neu'r ffyrdd gorau posibl o ddosbarthu trydan yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

Trin a Gwaredu Dŵr Wyneb a Dŵr Gwastraff

Amcan y Sector

Diogelu'r gallu i drin a gollwng dŵr wyneb ffo a dŵr gwastraff yn ddiogel ac yn effeithiol.

Twristiaeth a Hamdden

Amcan y Sector

Cyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy trwy ddiogelu a hyrwyddo mynediad i'r arfordir a gwella ansawdd profiad yr ymwelydd gan ledaenu'r enw da sydd gan Gymru fel cyrchfan cynaliadwy o'r radd flaenaf ar gyfer twristiaeth a hamdden forol.

T & R_01 a: Twristiaeth a hamdden (cefnogi)

Bydd cynigion sy'n dangos cyfraniad cadarnhaol at gyfleoedd twristiaeth a hamdden ac amcanion polisi (ar gyfer y sector) o amgylch arfordir Cymru yn cael eu cefnogi os ydynt yn cyfrannu at amcanion y cynllun hwn. Dylai'r cynigion gydymffurfio â'r polisiau cyffredinol perthnasol a pholisiau diogelu sector y cynllun hwn ac unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill.

T & R_01 b: Twristiaeth a hamdden (cefnogi)

Anogir awdurdodau cyhoeddus perthnasol a'r sector, ar y cyd â phartïon eraill sydd â diddordeb, i gydweithio er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer twristiaeth a hamdden gynaliadwy o amgylch arfordir Cymru, gan gynnwys:

- a) datblygu sylfaen dystiolaeth strategol i wella dealltwriaeth o weithgareddau twristiaeth a hamdden cyfredol a phosibl, gan gynnwys eco-dwristiaeth a gweithgareddau eraill sydd ag effaith isel; a
- b) chyfleoedd i ddiffinio ardaloedd o gyfle yn y dyfodol ar gyfer twristiaeth a hamdden;

er mwyn cefnogi datblygiad cynaliadwy'r sector twristiaeth a hamdden trwy gynllunio morol.

Polisiau Diogelu Sectorau

SAF_01: Diogelu gweithgarwch presennol

- a) Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol sylweddol ar weithgaredd sefydledig sy'n dod o dan gais neu awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd yn ymwneud â'r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros y cynnig i symud ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol.

- b) Rhaid i gynigion sy'n debygol o gael effeithiau niweidiol sylweddol ar weithgaredd sefydledig nad yw'n destun awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd yn ymwneud â'r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

O dan SAF 01 a a b, dylid dangos cydnawsedd trwy'r canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar y gweithgareddau hynny, a/neu
- Lleihau effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu lleihau.

SAF_02: Diogelu adnoddau strategol

Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol sylweddol ar ragolygon unrhyw sector sy'n cael ei gynnwys yn y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol (adnoddau sydd wedi'u nodi gan SRA) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd yn ymwneud â'r defnydd posibl o adnoddau.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Dylid dangos cydnawsedd trwy'r canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar y defnydd posibl hwn o adnoddau strategol, a/neu
- Lleihau'r effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu lleihau.

DEF_01: Amddiffyn (diogelu)

Dim ond gyda chytundeb y Weinyddiaeth Amddiffyn y dylid awdurdodi cynigion sydd:

- yn effeithio o bosibl ar Ardaloedd Perygl, Ardaloedd Ymarfer neu fuddiannau amddiffyn strategol y Weinyddiaeth Amddiffyn; a/neu
- a allai ymyrryd â chyfleusterau cyfathrebu, gwyliadwriaeth a mordwyo sy'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyniad a diogelwch cenedlaethol.